



**Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)
Meysydd Adnoddau Strategol (SRA) Gweithdy Rhif 2
4 Medi 2018**

Diben: Trafod opsiynau ac atebion i'r egwyddor o Feysydd Adnoddau Strategol.

Yn Bresennol

Phil Coates (Llywodraeth Cymru), **Rebecca Rees** (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd** (Cefas), **Mark Russell** (Mineral Products), **Peter Barham** (SUDG), **Christopher O'Brien** (RSPB / WEL), **Adrian Judd** (Cefas), **Lee Murray** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Gary Douch** (Trwyddedu Morol Llywodraeth Cymru), **Lisa Phillips** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Mike Butterfield** (RYA), **Duncan Savage** (RYA), **Rachel McCall** (SUAG), **Mike Frost** (Grŵp Coed), **Gemma Christian** (Cynllunio Llywodraeth Cymru)

1. Yn dilyn y gweithdy cychwynnol ar Ardaloedd Adnoddau Strategol yng Nghyffordd Llandudno ym mis Gorffennaf, cafodd aelodau y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol eu gwahodd i weithdy dilynol i adeiladu ar y gweithdy diwethaf ac i roi mwy o eglurder ar Ardaloedd Adfywio Strategol.
 2. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi edrych drwy sectorau gwahanol y Cynllun Morol Cenedlaethol ac wedi ceisio mynd i'r afael â phryderon neu'r pryderon tybiedig a godwyd yng ngweithdy mis Gorffennaf. Roedd y sylwadau cyffredinol oedd wedi dod i law yn y gorffennol wedi eu hychwanegu at y ddogfen a'u cyflwyno yn erbyn y prif themâu gydag awgrymiadau. Cafodd y gweithdy gynigion bod newidiadau i gael eu gwneud i:
 - eiriad y polisiau atodol a'u bod yn llai penodol i ardal a;
 - bod y polisiau diogelu wedi eu rhoi o fewn model cyffredinol oedd yn adlewyrchu gweithgareddau yn well (o gymharu â bod yn seiliedig ar adnoddau yn unig), a posibiliadau yr ardal yn y dyfodol (fel Ardaloedd Adnoddau Strategol) oedd yn adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth bresennol; tra'n cadw yr un lefel â camau i ddiogelu polisiau yn y gorffennol
- Cafodd y cynnig hwn ei ystyried yng nghyd-destun:
- canllaw cynllunio morol arfaethedig a fyddai'n llywio camau gweithredu'r cynllun a'r
 - sylfaen dystiolaeth i wneud penderfyniadau o fewn iddi (a swyddogaeth y Porthol).



3. Cyflwynwyd y grŵp gyda goblygiadau polisi a gyda gweithredu polisiâu diogelu a awgrymwyd, sef SAF-01(a & b) a SAF-02 (Ardaloedd Adnoddau Strategol). Byddai'r ardaloedd ble y mae gweithgarwch neu hawl yn bodoli eisoes yn parhau i fod y rhai sy'n cael eu diogelu fwyaf ("amgylchiadau eithriadol), ac y gellid ychwanegu ardaloedd archwilio / opsiynau a thrwy hynny leihau dau bolisi ar wahân yn un.
4. Mae'r sylwadau a ddaeth i law yn cynnwys goblygiadau ar gyfer Gwerthuso Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac a oedd angen ail-gynghori ar y newidiadau oedd yn cael eu gwneud. Cafwyd cadarnhad, gan bod y newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i adborth gan randdeiliaid ar yr ymgynghoriad, roedd y cyngor cyfreithiol wedi nodi nad oedd angen ymgynghori ar hyn eto.
5. Gwnaeth y rhai a oedd yn bresennol sylwadau'n gysylltiedig â phwysoli gwahanol Ardaloedd Adnoddau Strategol a sut oedd y rhain yn cyd-fynd yn y cynllun a'r canllaw gweithredu.
6. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo bod angen amser arnynt i ystyried goblygiadau y newidiadau a awgrymwyd e.e. ar y broses benderfynu, ar y dull o reoli'r sector ar hyn o bryd ac o ddulliau o ryngweithio â'r sector. Hefyd i ystyried cyd-destun yr hyn fydd testun gwirioneddol polisiâu'r sector yn ei ddweud unwaith y bydd wedi'i ddiwygio, sut y mae sectorau yn rhyngweithio a sut y mae'r polisiâu i gael eu harwain i'w gweithredu drwy ganllawiau diwygiedig.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru